# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 12 Hydref 2011** |
| Amser: | **09:05 - 11:45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_12_10_2011&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Anne Hinchliffe, Iechyd Cyhoeddus Cymru**<br>**Nuala Brennan, Iechyd Cyhoeddus Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Paratoi i graffu ar y gyllideb

1.1 Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth â chynrychiolwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13.

### 2. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan William Graham. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 3. Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru - Tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau Aelodau'r Pwyllgor ar gyfraniad fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am: y data sydd ar gael ynghylch nifer yr adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau a gynhelir; a gwybodaeth bresennol ynghylch dewisiadau cleifion ar gyfer ymgynghoriadau gan feddygon teulu neu fferyllwyr.

3.3 Cytunodd Ms Brennan i ystyried system achredu wedi'i symleiddio ar gyfer fferyllwyr cymunedol a'r hyn y byddai'n ei chynnwys, a dywedodd y bydd yn rhannu eu sylwadau â'r Pwyllgor.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i drefnu sesiwn ar ôl toriad y Nadolig i drafod y materion a godwyd gan y ddeiseb ar y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.